***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 619 (Cy.61)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Anifeiliaid (Rheolwyr Milfeddygol Rhanbarthol) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *4 Mawrth 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *8 Mawrth 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, a thrwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Anifeiliaid (Rheolwyr Milfeddygol Rhanbarthol) (Cymru) 2010; maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 1 Ebrill 2010.

### Diwygiadau i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(2) mae'r diffiniad o "Divisional Veterinary Manager" wedi ei ddirymu.

(3) Yn rheoliadau 13(5) a (6) a 16(8), yn lle'r geiriau "appropriate Divisional Veterinary Manager", ym mhob man y maent yn ymddangos, rhodder "Welsh Ministers".

(**1**) O.S 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59 a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 1996/3124 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**Diwygiad i Reoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006**

**3.** Yn rheoliad 23(1) o Reoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006(**4**), yn lle "a'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol o Wasanaeth Milfeddygol y Llywodraeth" rhodder "a Gweinidogion Cymru".

**Diwygiad i Reoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006**

**4.** Yn rheoliad 13 o Reoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006(**5**), yn lle "ar unwaith y Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer yr ardal lle mae'r aderyn hwnnw" rhodder "Gweinidogion Cymru ar unwaith".

**Diwygiad i Reoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006**

**5.** Yn lle rheoliad 11 o Reoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006(**6**) rhodder–

> "**11.** Rhaid i unrhyw berson a ŵyr neu a dybia nad yw aderyn wedi ei frechu, fel sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru, eu hysbysu ar unwaith."

**Diwygiad i Reoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008**

**6.**—(1) Mae Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008(**7**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Mae rheoliad 8(3) wedi ei ddirymu.

(3) Yn rheoliadau 8(1)(a) a (2) ac 11(b) yn lle "hysbysu'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol" rhodder "hysbysu Gweinidogion Cymru".

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

4 Mawrth 2010

(**4**) O.S. 2006/180 (Cy. 31).
(**5**) O.S. 2006/2803 (Cy. 242).
(**6**) O.S. 2006/2932 (Cy. 265).
(**7**) O.S. 2008/1090 (Cy. 116).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli cyfeiriadau at "Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol" â chyfeiriadau at "Gweinidogion Cymru" ac, fel y bo'n briodol, yn disodli cyfeiriadau at "Divisional Veterinary Manager" â chyfeiriadau at "Welsh Ministers" yn—

(a) Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996;

(b) Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006;

(c) Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006;

(ch) Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006; a

(d) Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei lunio ar gyfer y Rheoliadau hyn, gan na ragwelir y byddant yn effeithio o gwbl ar y sector preifat, y sector cyhoeddus na'r sector gwirfoddol.